# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 3 Mehefin 2014** |
| Amser: | **09.01 – 10.02** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_03_06_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-04-557 Y Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i ofyn am ei barn am y ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-526 Gwnewch Senedd TV yn hygyrch i bobl fyddar

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Deisebwr:

- yn gofyn am eglurhad o'r union gyfleusterau yr hoffent eu gweld ar gyfer Senedd TV; ac
- yn ailadrodd cynnig cynharach y Llywydd i gynnal cyfarfod i drafod y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.2 P-04-319 Deiseb ynghylch Traffig yn y Drenewydd

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ddiolch iddi am roi'r wybodaeth ddiweddaraf ac i ofyn iddi a fyddai modd parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw ddatblygiadau.

### 3.3 P-03-315 Deiseb i gael croesfan newydd dros Afon Dyfi

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog am ei sylwadau ar farn y deisebwyr.

### 3.4 P-04-487 Cynllun benthyg blaendal Llywodraeth Cymru i'r rheini sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ofyn am farn y Gweinidog am awgrymiadau pellach y deisebydd.

### 3.5 P-04-536 Rhoi'r Gorau i Ffatrïoedd Ffermio Gwartheg Godro yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ohirio ystyried yr eitem tan y cyfarfod nesaf, gan aros am gyngor cyfreithiol; ac

- wrth wneud hynny, tynnu sylw'r Deisebydd at y pwynt a wnaed gan y Gweinidog yn ei lythyr sef fod y gofynion o ran iechyd a lles anifeiliaid fferm yr un fath i fuches neu ddiadell o 10 anifail ag ydyw i 1000.

### 3.6P-04-447 Ymgyrch am Gerflun o Harri'r Seithfed ym Mhenfro

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y deisebydd a staff Aelod Cynulliad yr etholaeth a'r rhanbarth gyda'r wybodaeth yn y briff ymchwil; a
- chau'r ddeiseb.

### 3.7P-04-539 Achub Cyfnewidfa Lo

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd:

- y byddai croeso i'r Deisebydd ymweld â safle'r Gyfnewidfa Lo; a

- chael adroddiad Cabinet Ionawr 2014 gan y Cyngor a'i rannu ag Aelodau cyn yr ymweliad.

### 3.8P-04-436 Gwariant a Refeniw Llywodraeth Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i anfon copi o adroddiad Gwariant y Llywodraeth a Refeniw yr Alban (GERS) at y Gweinidog gan ofyn a oes modd gwneud rhywbeth tebyg yng Nghymru.

### 3.9P-04-437 Gwrthwynebu cofrestru gorfodol ar gyfer plant sy'n derbyn addysg yn y cartref

### 3.10 P-04-517 Atal Llywodraeth Cymru rhag cyflwyno system i fonitro plant sy'n dewis cael eu haddysgu gartref o dan wedd diogelu

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn os gall prif ddeisebydd P-04-437 gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r canllawiau anstatudol ar addysg yn y cartref, sydd i'w llunio erbyn Mai 2015; ac

- anfon datganiad diweddar y Gweinidog at y ddau ddeisebydd.

### 3.11 P-04-448 Gwella gwasanaethau iechyd rhywiol yng ngorllewin y Fro

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog yn mynegi pryder difrifol am y diffyg ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; a'r

- Cyngor Gofal Iechyd Cymunedol yn mynegi pryderon y Pwyllgor ynghylch y Bwrdd Iechyd ac yn gofyn a ydynt wedi ymgymryd ag unrhyw ymchwiliadau ynghylch y materion a godwyd yn y ddeiseb.

### 3.12 P-04-449 Ysbyty Tywysoges Cymru Pen-y-bont ar Ogwr - Achub ein Gwasanaethau - Atal yr Israddio!

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb yn wyneb ymateb y deisebydd.

### 3.13 P-04-456 Dementia - Gallai hyn ddigwydd i chi

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog hysbysu'r Pwyllgor yn gyson iawn o unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn a chadw golwg ar y mater; ac

- wrth wneud hynny, gofyn i'r Gweinidog ystyried ac egluro sut y bydd yn newid y broses ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod ystyriaeth o farn a phrofiad y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan hyn.

### 3.14 P-04-502 Canolfan Lles ar gyfer Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn a fydd unrhyw agwedd ar gynigion y ddeiseb yn cael eu cynnwys yn y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol arfaethaedig, a fydd, o bosibl, yn ymdrin â materion lles; a

- chau'r ddeiseb.

### 3.15 P-04-530 Labelu Dwyieithog

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ohirio ystyried yr eitem tan y cyfarfod nesaf, gan aros am gyngor cyfreithiol.

### 3.16 P-04-500 Galw am Reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru

Ystyriodd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am ei farn am yr adroddiad gan yr RSPCA.